Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**CORFF PLISMONA LLEOL ETHOLEDIG DYFED-POWYS**

**BUDDIANNAU DATGELADWY**

**FFURFLEN HYSBYSIAD O FUDDIANNAU PERSONOL AC ARIANNOL**

**COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU**

Yn yr hysbysiad hwn o fuddiannau datgeladwy: -

ystyr **"corff y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant buddiol ynddo"** yw cwmni y mae'r unigolyn perthnasol yn bartner ynddo neu gorff corfforaethol y mae'r unigolyn perthnasol yn gyfarwyddwr arno, neu yn y gwarannau y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant buddiol ynddynt;

mae **"cyfarwyddwr"** yn cynnwys aelod o bwyllgor rheoli cymdeithas ddarbodus a diwydiannol;

mae **"tir"** yn cynnwys hawddfraint, gwasanaethfraint, buddiant neu hawl mewn neu dros dir nad yw'n cynnwys hawl i'r unigolyn perthnasol (ar ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall) i feddiannu'r tir neu dderbyn incwm;

mae **"corff plismona lleol etholedig"** yn golygu'r Corff Plismona Lleol mae'r unigolyn perthnasol yn gwirfoddoli iddo;

mae **"buddiannau personol ac ariannol"** yn cynnwys eich buddiannau chi a buddiannau eich priod, partner sifil, neu unigolyn sy'n byw gyda chi fel pe baech chi'n briod neu'n bartneriaid sifil;

mae **"cyfnod perthnasol"** yn golygu'r cyfnod 12 mis sy'n gorffen gyda'r diwrnod y mae'r unigolyn perthnasol yn gwneud cofnod, diwygiad neu ddilead i'r gofrestr o fuddiannau datgeladwy;

mae **"unigolyn perthnasol"** yn golygu'r unigolyn sy'n cael ei benodi i swydd fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gwneud yr hysbysiad o fuddiant datgeladwy a nodir isod;

mae **"gwarannau"** yn golygu cyfranddaliadau, dyledebau, stoc dyledebau, stoc benthyciadau, bondiau, unedau cynllun buddsoddi cyfunol o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 a gwarannau eraill o unrhyw ddisgrifiad, ar wahân i arian a gedwir mewn cymdeithas adeiladu;

mae **"buddiant sensitif"** yn golygu buddiant y mae'r Swyddog Monitro'n ystyried sy'n "fuddiant sensitif" ar yr unigolyn perthnasol sy'n mynegi pryder y byddai cynnwys y buddiant ar y gofrestr buddiannau, a fydd ar gael i'r cyhoedd, yn arwain at yr unigolyn perthnasol neu unigolyn sy'n gysylltiedig â'r unigolyn perthnasol yn dioddef trais neu erledigaeth, ac mae'r unigolyn perthnasol wedi gofyn i'r Swyddog Monitro gytuno bod y buddiant yn "fuddiant sensitif";

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Yr wyf i ***DAFYDD LLYWELYN***

drwy hyn yn rhoi gwybod am y buddiannau datgeladwy canlynol yn unol â Rhan 1, paragraff 1 (e) o'r Atodlen i Orchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011 (fel y'i diwygiwyd).

*(Noder: Ysgrifennwch "Dim" os nad oes gennych fuddiannau o'r math y cyfeirir atynt)*

*1.1)* Rwy'n cynnal busnes fel: -

| |
|---|
| *DIM* |

*1.2)* Fy nghyflogwr yw: -

| |
|---|
| *DIM* |

1.3) Rwy'n cael fy nghyflogi fel: -

| |
|---|
| *DIM* |

1.4) Rwy'n bartner yn y cwmni/cwmnïoedd canlynol: -

| |
|---|
| *DIM* |

1.5) Rwy'n gyfarwyddwr sy'n derbyn cyflog yn y cwmni/cwmnïoedd canlynol:-

| |
|---|
| *DIM* |

*2.* Mae'r unigolion canlynol wedi gwneud taliadau neu roi buddion ariannol eraill i mi mewn perthynas â threuliannau a wynebais wrth gyflawni fy nyletswyddau (gan gynnwys unrhyw daliad o fuddiant ariannol gan undeb llafur o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 o fewn y cyfnod perthnasol.

| |
|---|
| *COSTAU ETHOLIADAU YN UNIG SYDD WEDI EU CYHOEDDI AR WEFAN Y COMISIWN ETHOLIADOL* |

*3.* Mae gennyf fuddiant buddiol yng ngwarannau'r corff neu'r cyrff canlynol lle y mae ganddo/ ganddynt (hyd y gwn i)

(a) le/llefydd busnes neu dir yn ardal corff plismona lleol etholedig Dyfed-Powys: a

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

(b) naill ai

i. mae cyfanswm gwerth nominal y gwarannau'n fwy na £25,000 neu un rhan o gant o'r cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd ym mhob corff, neu

ii. os yw cyfalaf cyfandaliadau pob corff o fwy nag un dosbarth, mae cyfanswm gwerth nominal cyfranddaliadau unrhyw ddosbarth y mae gan yr unigolyn perthnasol fuddiant buddiol ynddo'n fwy nag un rhan o gant o'r cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd o'r dosbarth hwnnw.

| |
|---|
| *DIM* |

4. Mae gennyf fuddiant buddiol yn y tir canlynol o fewn ardal corff plismona lleol etholedig Dyfed-Powys (Noder: Nodwch y cyfeiriad neu ddisgrifiad digonol er mwyn adnabod y tir)

| |
|---|
| *CARTREF TEULOL, LLANDYSUL, CEREDIGION* |

5. Rwyf wedi ymrwymo i drwydded (ar ben fy hun neu ar y cyd ag eraill) i feddiannau (disgrifiad o'r tir) o fewn ardal corff plismona lleol etholedig Dyfed-Powys.

| |
|---|
| DIM |

6. Corff plismona lleol etholedig Dyfed-Powys yw perchennog y tir canlynol a fi yw'r tenant, neu mae'r tenant yn gwmni yr wyf yn bartner ynddo, cwmni lle'r wyf yn gyfarwyddwr sy'n derbyn cyflog, neu'n gorff y mae gennyf fuddiant buddiol ynddo (fel y disgrifir yn 3). (Noder: Nodwch y cyfeiriad neu ddisgrifiad digonol er mwyn adnabod y tir)

| |
|---|
| *DIM* |

7. Fi yw cyfarwyddwr y cwmni/cwmnïoedd, cymdeithas(au) darbodus a diwydiannol, elusennau neu gyrff eraill a restrir isod.

| |
|---|
| *YMDDIRIEDOLWR CAPEL SEION, LLANDYSUL* |

8. Datganiad arall:-

| |
|---|
| *DIM* |

LLOFNOD: 

DYDDIAD: 19/03/2025

DERBYNIWYD: 

DYDDIAD: 19/03/2025